# RHEOLAU

EISTEDDFOD RYNG GOLEGOL 2025

• Cymraeg fydd iaith yr Eisteddfod.

• Mae'n rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn y Gymraeg ag eithrio cystadlaethau nad ydynt yn cynnwys iaith o gwbl, h.y. Dawnsio Disgo, Ffotograffiaeth a.y.y.b. Noder bod rhaid i unrhyw eiriau a osodir fod yn Gymraeg.

• Mewn cystadleuaeth hunan-ddewisiol, dylai'r mwyafrif helaeth o'r gosodiad fod yn Gymraeg, ond caniateir defnydd o iaith arall i ddiben y gosodiad. Ni chaniateir gorddefnydd o'r iaith honno. Bydd y beirniad priodol yn penderfynu ar hyn yn unol â rheolau'r Eisteddfod. • Yn y cystadlaethau dawnsio, caniateir unrhyw gerddoriaeth offerynnol yn gyfeiliant, neu gyfeiliant yn yr iaith Gymraeg, megis trac sain.

• Y Gymraeg yn unig fydd iaith y llwyfan.

• Bydd yr Eisteddfod yn agored i holl fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr mewn colegau Prifysgol a cholegau Addysg Uwch yng Nghymru a thu hwnt.

• Dylid ymdrechu i ddarparu copi ar gyfer y beirniad mewn cystadlaethau hunan-ddewisol lle bo hynny'n briodol.

• Caniateir y defnydd o gopïau yng nghystadlaethau llwyfan yr Eisteddfod gan leiafrif y cystadleuwyr sy'n cymryd rhan.

• Dyfernir pwyntiau yn holl gystadlaethau'r Eisteddfod yn unol â'r Strwythur Marcio.

• Y coleg â'r nifer uchaf o bwyntiau ar derfyn yr Eisteddfod fydd yn fuddugol.

• Rhoddir gwobrau i'r buddugwyr (os bydd teilyngdod) yng nghystadlaethau'r Gadair, Y Goron, Tlws y Cerddor, Medal y Dysgwyr, Y Fedal Ddrama, Y Fedal Gelf, Y Fedal Wyddoniaeth. Cyflwynir Tarian yr Eisteddfod i'r brifysgol fuddugol.

• Bydd dyfarniad y beirniad yn derfynol ym mhob achos yng nghystadlaethau'r Eisteddfod.

• Ni chaniateir cydradd fuddugol yn y cystadlaethau llwyfan nac yn y cystadlaethau gwaith cartref. Caniateir, fodd bynnag, gosod cydradd ail a/neu gydradd drydydd.

• Dylid cyflwyno pob darn yn yr adran Gwaith Cartref yn electronig trwy law Llywydd y Gymdeithas/Undeb Myfyrwyr Cymraeg erbyn 12 hanner dydd ar ddydd Gwener, 11 o Chwefror 2025.

• Cyfrifoldeb Llywydd Cymdeithas Gymraeg/ Undeb Myfyrwyr Cymraeg pob prifysgol yw cyflwyno gwaith cartref myfyrwyr a rhestr o gystadleuwyr llwyfan a thimau

chwaraeon o'u prifysgolion eu hunain. Os nad oes darpariaeth o'r fath mewn coleg, dylai unigolion gyflwyno'r gwaith eu hunain.

• Dylid rhoi gwybod pa dimau chwaraeon fydd yn cystadlu ar ran y colegau, a darparu rhestr o enwau pob cystadleuydd llwyfan erbyn 17 Chwefror 2025.

• Dylid ymdrechu i roi gwybod am unrhyw newidiadau i gystadleuwyr llwyfan ar fore'r Eisteddfod.

• Cyfrifoldeb pwyllgor Cymdeithas Gymraeg / Undeb Myfyrwyr Cymraeg y colegau yw sicrhau bod unrhyw reoliadau hawlfraint wedi eu boddhau. Eu cyfrifoldeb nhw yw cael gafael ar gopïau.

• Os bydd tywydd anffafriol, bydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn penderfynu a yw'r cystadlaethau chwaraeon yn mynd yn eu blaenau yn dilyn ymgynghoriad gyda swyddogion y Brifysgol ac Undeb y myfyrwyr.

• Cedwir pob hawl i ddiwygio'r testunau gwreiddiol ar alw Pwyllgor yr Eisteddfod am ba reswm bynnag. Gwneir pob ymdrech i hysbysebu'r colegau o newid o'r fath cyn gynted â bod modd.

• Mewn achosion arbennig, gall Pwyllgor yr Eisteddfod dderbyn ceisiadau gan golegau a ddymunent ddod ynghyd â chystadlu fel Ffederasiwn e.e. casgliad o golegau Llundain.

• Cedwir pob hawl gan Bwyllgor yr Eisteddfod i ddarlledu a thynnu lluniau o ddiwrnod yr Eisteddfod fel y dymunir. Dylid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad yn ysgrifenedig i sylw Pwyllgor yr Eisteddfod